# CYSWLLT

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Papur Newydd Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Haf 2024



**Pwyllgor Eco Abercanaid yn arwain y ffordd wrth ailgylchu**
Tudalen 6

**Cwrdd â Maer Newydd Merthyr Tudful**
Tudalen 2

**Helo Halo! Preswylwyr yn plymio i mewn i'r pwll nofio sydd newydd agor**
Tudalen 3

**Gwisg ysgol parod AM DDIM ar gael**
Tudalen 4



## Maer Newydd

Etholwyd y Cynghorydd John Thomas yn Faer Merthyr Tudful yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym Mai 2024.

Mae'n ŵr i Debbie, tad i Gareth, Emma, Nathan a Rachel a Thad-cu i naw o wyrion. Cafodd John ei eni a'i fagu yn Allt y Briallu, Twynyrodwyn. Mae John wedi bod yn Gynghorydd Ward y Dref ers 2017.

Meddai: *"Mae'n anrhydedd ac yn fraint fawr cael bod yn Faer. Rwyf am wneud trigolion Merthyr Tudful yn falch."*

Cydymaith John ar gyfer y blwyddyn ddinesig yw ei wraig, Debbie Thomas.

Mae John wedi dewis cefnogi dwy elusen leol:

**Uned Dementia Tŷ Enfys** *"Fe wnaeth fy nhad yng nghyfraith fynychu'r uned flaenorol am 13 mlynedd ac mae'r gwaith a'r gofal y mae'r staff yn eu cynnig yno yn anhygoel."*

**Hope Pantry** *"Ar ôl ymweld â Hope Pantry sawl gwaith a gweld y gwaith anhygoel roedd Heidi a'i thîm o wirfoddolwyr yn eu gwneud, roeddwn yn teimlo ei fod yn haeddu cefnogaeth gan elusen y maer eleni."*

Os hoffech wahodd y Maer i ddigwyddiad neu gyfrannu at apêl y Maer, cysylltwch â: **mayoral@merthyr.gov.uk**

Y Dirprwy Faer yw Aelod Ward Dowlais a Pant, y Cynghorydd Paula Layton a'i Chydymaith fydd ei phartner, y Cynghorydd Declan Sammon.



## Digwyddiadau






Darganfyddwch beth sy'n digwydd ym Merthyr Tudful yr haf hwn! **visitmerthyr.co.uk/cy/digwyddiadau/**



**Y Cynghorydd Geraint Thomas**
Arweinydd y Cyngor

**Croeso i'ch rhifyn haf o Cyswllt.**

Mae gennym lawer o straeon hyfryd i'w rhannu gyda chi'r rhifyn hwn, gan gynnwys arolygiadau gwych mewn cartrefi gofal, prosiectau bioamrywiaeth a newyddion gan ein hysgolion.

Gyda tharged ailgylchu uchelgeisiol iawn gan Lywodraeth Cymru o 70% ar gyfer Merthyr Tudful, rydym yn apelio ar bob preswylydd i ddefnyddio'n gwasanaeth ailgylchu wrth ymyl y ffordd ac i ailgylchu cymaint â phosibl gartref. Pe bai ein holl aelwydydd yn ailgylchu gwastraff bwyd byddai hyn yn mynd yn bell i gyflawni'r targed hwn. Gweler **tudalen 7** am fwy o wybodaeth.

Y newyddion rydym ni gyd wedi bod yn aros amdano - mae'r pyllau yng Nghanolfan Hamdden Merthyr Tudful wedi ailagor! Gweler y bobl gyntaf yn gwneud sblash ar **dudalen 3.**

Eleni mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dod i Dde Cymru! Mae'r Eisteddfod yn addo bod yn ddigwyddiad gwych i'r teulu cyfan – dewch o hyd i ble i brynu tocynnau ar **dudalen 4.**



**Y Cynghorydd Michelle Symonds**
Aelod Cabinet Adfywio

## Helo o Halo

Mae cynlluniau cyffrous ar gyfer y cyfleusterau hamdden yng Nghanolfan Hamdden Merthyr Tudful, Canolfan Gymunedol Aberfan a Merthyr Vale a'r Parc Sblash a Chaffi ym Mharc Cyfarthfa diolch i bartneriaeth newydd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Halo Leisure.

halo
www.haloleisure.org.uk

Dywedodd Scott Rolfe, Prif Weithredwr Halo, *"Rydym yn falch iawn o gael ein dewis gan y Cyngor fel y partner gweithredol ar gyfer y cyfleusterau hamdden hyn. Mae ein model busnes menter gymdeithasol a'n statws elusennol cofrestredig yn ein galluogi i fasnachu at ddibenion cymdeithasol ac 'nid er elw', rhywbeth y mae'r Cyngor yn ei gydnabod fel arwydd o ansawdd a chryfder."*

Dywedodd Alun Owen, Dirprwy Brif Weithredwr CBSMT: *"Rydym wedi gweld y ffordd y mae Halo wedi trawsnewid canolfannau a phyllau hamdden eraill a'r effaith ddramatig a gafodd hynny ar nifer yr ymwelwyr ac felly iechyd y cymunedau o'u cwmpas."*

Aeth Scott Rolfe ymlaen i ddweud, *"Byddwn yn gweithio gyda'r timau ar y safleoedd a'r Cyngor i gefnogi hyd yn oed mwy o bobl leol i gymryd rhan mewn rhyw fath o ymarfer corff, cynyddu'r ystod o weithgareddau sydd ar gael iddynt, a buddsoddi yn y cyfleusterau hamdden. Rydym yn hyderus, gyda'n gilydd, y gallwn drawsnewid gwasanaethau a chyfleusterau er budd trigolion lleol a chael mwy o bobl i fod yn fwy egnïol yn amlach."*








Am rhagor o wybodaeth ac i gwblhau'r ymgynghoriad Cynllun Creu Lleoedd Merthyr Tudful – Canol y Dre

**merthyrtowncentreplacemaking.com/cymraeg**

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cae **ar 31 o Orffennaf**

## Datblygiadau safle'r Glastir

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hen safle'r orsaf fysiau i drawsnewid y gofod nas defnyddiwyd yn farchnad gydag ardal digwyddiadau a mannau gwyrdd agored.

Mae contractwyr wedi bod ar y safle ers mis Ionawr a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn yr hydref.

Mae'r datblygiad gwerth tua £1m wedi bod yn bosibl diolch i gyllid Llywodraeth Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Michelle Symonds: *"Rydym wrth ein bodd bod cynlluniau ar gyfer y safle yn dwyn ffrwyth - mae'r rhain yn amseroedd cyffrous i Ganol Tref Merthyr Tudful!"*





**Y Cynghorydd Geraint Thomas**
Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg

## Mae Ysgolion Bro yn flaenoriaeth genedlaethol i Lywodraeth Cymru

Mae Ysgolion Bro yn cyd-fynd â'n strategaeth Codi Dyheadau i godi Safonau (RARS), gan gydnabod bod canlyniadau i'n pobl ifanc yn cael eu siapio'n annatod y tu allan i'r ysgol gan deuluoedd a chymunedau.

Mae ein tîm wrthi'n ymgysylltu ag ysgolion a gwasanaethau cymunedol lleol ar draws Merthyr Tudful, gan feithrin perthnasoedd cadarnhaol i gefnogi ein pobl ifanc. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd i greu amgylchedd cryf a chefnogol i'n myfyrwyr ffynnu.

Ers mis Ebrill 2023, mae ein tîm wedi bod wrthi'n gweithio gyda theuluoedd i ddarparu cymorth gyda chostau byw. Rydym hefyd wedi bod yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol lleol ac yn creu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn Cymdeithasau Rhieni Athrawon a grwpiau "Cyfeillion" mewn ysgolion lleol.




Y nod ar gyfer pob ysgol yw;

- **Adeiladu partneriaeth gref gyda theuluoedd**
- **Ymateb i anghenion eu cymuned**
- **Gweithio'n effeithiol gyda gwasanaethau eraill**

Ysgolion Bro, darpariaethau cymunedol lleol ac amrywiaeth o ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol yn gweithio ochr yn ochr â'r "Sefydliad Ymgysylltu â'r Gymuned" i ddathlu eu llwyddiannau sy'n cynnwys gwaith ymgysylltu cymunedol a theuluol.

Rhennir y gwaith hwn ar dudalen Facebook Ysgolion Bro "Ysgolion Bro – Merthyr Tudful"

Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost at: **cfs@merthyr.gov.uk**






Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru, un o wyliau diwylliannol mwyaf Ewrop, yn cael ei chynnal ar stepen drws Merthyr eleni, ym Mhontypridd, **Awst 3-10 2024.**

Mae'r digwyddiad yn ddathliad o ddiwylliant Cymru, cymysgedd o gystadlaethau talent a chyngherddau gyda'r nos, gigs, dramâu, arddangosfeydd a llawer mwy. Mae'r Eisteddfod yn ddigwyddiad cyfeillgar i'r teulu sy'n croesawu pawb, waeth beth fo'ch sgiliau Cymraeg, mae rhywbeth at ddant pawb.

Gellir prynu tocynnau: **eisteddfod.cymru/2024/tocynnau**



**Y Cynghorydd Julia Jenkins**
Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol

**Rydym wrth ein bodd yn rhannu bod Cartref Gofal Tŷ Gurnos Newydd, Tŷ Bargod Newydd a Chartref Preswyl Llysfaen i gyd wedi cael canlyniadau rhagorol mewn arolygiadau diweddar.**

Roedd yr arolygwyr a'r preswylwyr fel ei gilydd wedi creu argraff ar y safon uchel o ofal a gwasanaeth a ddarperir ym mhob cyfleuster.

Rydym yn hynod falch o'n staff ymroddedig sy'n mynd y filltir ychwanegol yn gyson i sicrhau lles a boddhad ein preswylwyr.

Mae'r canlyniadau disglair hyn yn dyst i'w gwaith caled a'u hymrwymiad i ragoriaeth. Rydym yn ddiolchgar am yr adborth cadarnhaol a byddwn yn parhau i ymdrechu am ragoriaeth yn ein cartrefi gofal.


Mae detholiad o sylwadau disglair gan arolygwyr a phreswylwyr yn cael eu dal isod...

*"Mae pobl wir yn cael eu cefnogi i fyw bywydau ystyrlon"*

*"Un o'r cartrefi gofal mwyaf prydferth"*

*"Rhyfeddol, gwych, ni fyddai eisiau iddo fyw yn unrhyw le arall"*







**Mae Merthyr Tudful wedi bod yn gweithio gyda'r artist lleol Tee2Sugars** a phlant lleol i greu murlun hardd sy'n dathlu'r gwahaniaeth y mae maethu awdurdodau lleol yn ei wneud i bobl ifanc.



## Foster with your local authority

There are children in Merthyr who need a foster home. A safe place, a place to learn, and a place to laugh. A place to be loved.

## Maethu gyda'ch awdurdod lleol

Mae yna blant ym Merthyr angen cartref maeth. Lle diogel, lle i ddysgu, a lle i chwerthin. Lle llawn cariad.

maethu cymru
Merthyr Tudful

foster wales
Merthyr Tydfil

beth allwch chi ei gynnig?
what will you bring to the table?

Fostering is about consistency, come rain or shine. It's about spending the time you have, to give them the time they need.

Everybody can bring something to the table when it comes to local authority fostering. With Foster Wales Merthyr, we'll give you the local expertise, financial support, and training you'll need.

Mae maethu yn golygu bod yno'n gyson, glaw neu hindda.
Rhoi'r amser sydd ei angen arnynt gyda'r amser sydd gennych.
Gall pawb gynnig rhywbeth gyda maethu awdurdodau lleol.

Gyda Maethu Cymru Merthyr Tudful, eich cyngor lleol, byddwn yn rhoi'r arbenigedd lleol, cymorth ariannol, a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnoch.

01443 425007

merthyrtudful.maethucymru.llyw.cymru
merthyrtydfil.fosterwales.gov.wales





Y Cynghorydd
**David Hughes**
Aelod Cabinet
Gwasanaethau Cymdogaeth

## Gwlybtiroedd Trelewis: Hafan Bioamrywiaeth

Mae ein tîm Bioamrywiaeth sy'n gweithio'n galed, ynghyd â gwirfoddolwyr gwych, wedi bod yn brysur yn monitro'r gwlyptir yn Nhrelewis ac yn gosod nodweddion ychwanegol ledled yr ardal i ddynodi pwysigrwydd y cynefin hwn a'r rhywogaethau y mae'n eu cynnal.

Gosodwyd Gwas y Neidr a Polyn Totem Broga i ddenu ymwelwyr iau, ynghyd â chefnogi addysg rhywogaethau sy'n bresennol ar y safle.







Ar ben hynny, gosodwyd Gwesty Trychfilod ychwanegol, hanner wedi'i gwblhau yn y gobaith y gallai pobl leol sy'n ymweld ychwanegu ato.

Ochr yn ochr â'r nodweddion newydd hyn, gosodwyd phostyn Chwydd wydr a fyddai'n caniatáu i blant ac oedolion arsylwi ar fflora a ffawna gwahanol ar raddfa fwy.

Mae gwaith mawr wedi ei wneud ar y coetir wedi cael ei reoli a llwybrau naturiol yn cael eu creu gan ymwelwyr â'r safle.

Yn olaf, adeiladwyd sgrap bach gan y tîm ynghyd â Hügelkultur ar ei ochr ddeheuol, a fydd yn gweithredu fel lle i infertebratau, mamaliaid ac amffibiaid ei ddefnyddio.

Bydd hyn yn gweithredu fel math arall o greu cynefinoedd yn y Gwlyptir a fydd yn cynyddu bioamrywiaeth yr ardal.

Ariannwyd y prosiect hwn gan Leoedd Lleol ar gyfer Natur ac roedd yn brosiect SUD i helpu i liniaru'r dŵr ffo a oedd yn dyfrgio'r cae pêl-droed isod.



**Mwynhaodd Eco-Bwyllgor Ysgol Gynradd Abercanaid daith o amgylch ein depo ailgylchu** a dysgodd am yr hyn sy'n digwydd i'n gwastraff ar ôl iddo gael ei gasglu o ymyl y ffordd.

Gwyliodd y plant fforch godi yn dangos sut mae gwastraff bwyd yn cael ei wagio i finiau enfawr, archwilio'r mannau storio ar gyfer plastigau, metelau, cardbord a hyd yn oed gweld y deunyddiau'n teithio ar hyd gwregys cludo, gan baratoi i gael eu pwyso i mewn i bêls.

I orffen eu taith, cafodd pawb bag yn llawn anrhegion o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, wrth gwrs!

Mae ein **Gwasanaeth Rwbel Swmpus** bellach ar gael ar gyfer symiau mawr o rwbel a gynhyrchir gan gartrefi sy'n gwneud mân welliannau i'r cartref.

Bydd rwbel yn cael ei gasglu wrth ymyl y ffordd mewn sachau tunnell a ddarperir gan y cyngor.

wasteservices@merthyr.gov.uk
01685 725000



Rhaid i ni ailgylchu **70%** o'r gwastraff rydym yn ei gasglu

Dim ond **64%** rydym yn ei ailgylchu ar hyn o bryd



**Mae llawer i'w wneud o hyd...**

Llynedd fe anfonom **10,000 tunnell** o wastraff bin olwynion i'w losgi mewn gwaith **Ynni o Wastraff**

Gallai **5000 tunnell** ohonno fod wedi ei ailgylchu

Roedd **3000 tunnell** yn wastraff bwyd



Os byddai pawb ym Merthyr Tudful yn ailgylchu bwyd gartref, byddai ein cyfradd ailgylchu yn cynnyddu o

**10%**



Fel preswylwyr mae cyfrifoldeb ar y cyd arnom i ailgylchu gymaint ag y gallwn



Gan arbed yr adnoddau gwerthfawr hyn i genedlaethau'r dyfodol

Os ydym yn methu cyrraedd y targed 70%, bydd y Cyngor yn cael ei ddirwyo £52k am bob 1% o dan y targed.

**DIRWYWYD**

**Bydd hyn yn cael effaith ar wasanaethau eraill**

Gallwch arbed hyn wrth ddefnyddio y gwasanaethau ailgylchu a ddarperir



**ARCHEBWCH EICH CYNWYSYDDION AILGYLCHU HEDDIW!**

**Cofiwch...**

- ✓ Atal gwastraff trwy ddewis ailddefnyddio, rhoi neu atgyweirio cyn ailgylchu
- ✓ Peidiwch byth â rhoi deunydd y gellir ei ailgylchu yn eich bin sbwriel, gallech dderbyn dirwy a chaiff yr adnoddau hynny eu colli am byth

## Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref - Amserau Agor

**Haf: 31 Mawrth 2024 - 26 Hydref 2024**

**Aberfan**

| | |
|---|---|
| Llun | 10.00 - 6.00 |
| Mawrth | 10.00 - 6.00 |
| Mercher | AR GAU |
| Iau | 11.00 - 7.00 |
| Gwener | 10.00 - 6.00 |
| Sadwrn | 9.00 - 5.00 |
| Sul | 9.00 - 5.00 |

**Dowlais**

| | |
|---|---|
| Llun | 10.00 - 6.00 |
| Mawrth | AR GAU |
| Mercher | 11.00 - 7.00 |
| Iau | 11.00 - 7.00 |
| Gwener | 10.00 - 6.00 |
| Sadwrn | 9.00 - 5.00 |
| Sul | 9.00 - 5.00 |

**Gaeaf: 27 Hydref 2024 - 29 Mawrth 2025**

**Aberfan**

| | |
|---|---|
| Llun | 9.00 - 4.30 |
| Mawrth | 9.00 - 4.30 |
| Mercher | AR GAU |
| Iau | 9.00 - 4.30 |
| Gwener | 9.00 - 4.30 |
| Sadwrn | 9.00 - 4.30 |
| Sul | 9.00 - 4.30 |

**Dowlais**

| | |
|---|---|
| Llun | 9.00 - 4.30 |
| Mawrth | AR GAU |
| Mercher | 9.00 - 4.30 |
| Iau | 9.00 - 4.30 |
| Gwener | 9.00 - 4.30 |
| Sadwrn | 9.00 - 4.30 |
| Sul | 9.00 - 4.30 |

## Dweud Eich Dweud

Mae eich barn yn bwysig i ni. Cwblhewch ein harolygon a'n hymgynghoriadau drwy ymweld â: **merthyr.gov.uk/DweudEichDweud**



**Y Cynghorydd Andrew Barry**
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol

Panel Dinasyddion
**Citizens' Panel**

Rydym wedi bod yn brysur yn datblygu ein **Panel Dinasyddion** ac yn gwahodd trigolion lleol i ymuno â ni a chwarae rhan mewn gwella bywydau'r rhai sy'n gweithio ac yn byw yn ein Bwrdeistref Sirol.

Am fwy o wybodaeth ac i wneud cais: **merthyr.gov.uk/PanelDinasyddion**

CRT TOGETHER
IMPROVING THE CANCER JOURNEY

## Cynnig cymorth i bobl y mae canser wedi'i effeithio.



### Sut gallwn ni helpu?

Ydych chi neu aelod o'r teulu yn byw gyda chanser?

Gallwn eich helpu i gysylltu â nifer o wasanaethau cymorth yn ardal Cwm Taf Morgannwg, sy'n canolbwyntio ar eich anghenion.

TOGETHER@COALFIELDS-REGEN.ORG.UK
07561 857803 | BIT.LY/CRTREFER

HWB CANA, PENYWAUN
CF44 9DE

## Merthyr Pride 2024

Ymuno â ni ar **Ddydd Sadwrn 17 Awst** am Ferthyr Pride – man diogel i'n cymuned ddathlu amrywiaeth a chydraddoldeb.

Parêd yn dechrau 11am!

Parêd Balchder • Cwîns drag
Cerddoriaeth byw • Stondinau
Bwyd a diod • Llawer mwy!

Dydd Sadwrn 17 Awst
Sgwâr Penderyn: 11am
Y Coleg Merthyr Tudful: 12pm-6pm

Does dim angen tocyn arnoch ac mae croeso i bawb!

Dilynwch ni am y diweddaraf!

Chwiliwch: Merthyr Pride

Cefnogir gan: Stagecoach, Y Coleg Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Ffyniant Bro, Merthyr Valleys Homes

Am cymorth a chyngor ynghylch Costau Byw
**merthyr.gov.uk/GostauByw**

**Roedd yr holl wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ar adeg ei hargraffu.**

**Gorffennaf 2024.**